**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig** **ARD-13-02(min)**

**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 16 Hydref |
| **Amser:** | 9.15am i 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora , Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

Yn Bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Glyn Davies, *Cadeirydd* | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Ron Davies | Caerffili |
| Cynog Dafis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Mike German, *Gweinidog* | Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| *Swyddogion* | |
| Huw Brodie | Cyfarwyddwr, Yr Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig |
| Mike Dunn | Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Rory O'Sullivan | Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd |
| Gareth Jones | Yr Is-adran Rheoli'r PAC |
| Huw Jones | Yr Is-adran Cefn Gwlad |
| Gwyn Griffiths | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| Simon Hewitt | Y Comisiwn Coedwigaeth |
| Tony Edwards | Y Prif Swyddog Milfeddygol |
| | |
| *Yr Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1.1 Gwnaed y datganiadau canlynol o fuddiant:

- dywedodd y Cadeirydd ei fod ef a'i wraig yn bartneriaid mewn busnes ffermio. Roedd y manylion ar gael yng Nghofrestr Buddiannau'r Aelodau.
- Dywedodd Peter Rogers ei fod yn bartner mewn busnes ffermio.

1.2 Mynegwyd pryder ynghylch maint agenda'r Pwyllgor ac yn benodol, hyd adroddiad ysgrifenedig y Gweinidog. Cydnabuwyd bod hyn yn ddealladwy o gofio'r bwlch hir ers y cyfarfod diwethaf. Cytunwyd y dylid cynnwys eitem ar wahân ar yr agenda nesaf er mwyn ystyried blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer Adolygiad Canol Tymor y PAC.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog: ARD 13-02(p1)**

***Corff cig coch newydd***

2.1 Dywedodd y Gweinidog bod y trafodaethau â'r partïon y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn mynd rhagddynt yn dda. Nid oedd pob un o'r rhain o dan reolaeth y Cynulliad ond roedd yn gobeithio y gellid dod â'r trafodaethau i ben yn fuan.

***Cyswllt Ffermio***

2.2 O ystyried y diddordeb mawr a fynegwyd gan ffermwyr, roedd maint y gyllideb ar gyfer Grantiau Gwella Ffermydd (FIG) a Grantiau Menter Ffermydd (FEG) yn destun pryder i'r Aelodau o gofio bod £2.7 miliwn o arian grant wedi'u neilltuo i'r 198 sydd eisoes wedi'u cymeradwyo.

2.3 Nododd y Pwyllgor y canlynol:

- roedd y problemau cychwynnol o gael ymgynghorwyr addas wedi'u datrys. O ganlyniad, mae tua 25 o gynlluniau busnes yn cael eu cwblhau bob wythnos a dylai nifer y grantiau sy'n cael eu cymeradwyo adlewyrchu hynny;
- talwyd tua £400,000 hyd yn hyn ar FIG/FEG. Byddai arian na chafodd ei wario yn cael ei gario ymlaen i'r blynyddoedd yn y dyfodol
- bwriedid i'r ymarfer o gynnal adolygiad o fusnes fferm a datblygu cynllun busnes fod yn fuddiol i ffermwyr ynddo'i hun. Gwahoddwyd yr Aelodau i ysgrifennu at y Gweinidog os oedd ganddynt fanylion am achosion penodol lle nad oedd y cynlluniau hyn yn cael eu cadw'n gyfrinachol.

2.4 Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at Rhodri Glyn Thomas yn rhoi manylion y ffordd y caiff Cyswllt Ffermio ei roi ar waith yn Sir Gaerfyrddin ac i roi'r manylion diweddaraf i'r Pwyllgor am ddatblygu modelau ffermio cynaliadwy sy'n eco-gyfeillgar yn y cyfarfod nesaf.

***Twbercwlosis mewn Gwartheg***

2.5 Nododd y Pwyllgor:

- bod protocol wedi'i gytuno ar weithredu canolfannau casglu trwyddedig ar gyfer lladd anifeiliaid wedi'u heintio. Gweithredwyr y canolfannau casglu wnaeth y penderfyniad i wneud hynny. Ni chafodd un ei sefydlu hyd yma;
- cyn treialon Krebs, roedd moch daear ar ffermydd wedi'u heintio yn cael eu difa ond byddai moch daear eraill yn dod i fyw yn eu gwalau yn fuan ar ôl hynny. Ni fu'r dull hwn o ddifa yn ffordd effeithiol o sicrhau nad yw Tiwbercolosis yn ailgydio.

***Organebau a'u gennynau wedi'u haddasu (GMOs)***

2.6 Nododd y Pwyllgor:

- bod codi'r moritoriwm ar blannu GMOs yn fasnachol yn destun pryder i holl Aelod-Wladwriaethau'r UE. Ni fyddai unrhyw symudiad i wneud hynny heb dawelu pryderon ynghylch diogelu'r cyhoedd, olrhain hynt yr organebau ac atebolrwydd;
- bod penderfyniad y Cynulliad i arddel y polisi lymaf posibl o ran GMOs yn golygu y byddai'n pwyso am sicrhau na fyddai'n caniátau cymysgu unrhyw had wedi'u haddasu'n enetig ymhith hadau confensiynol;
- nad oedd cytundeb hyd yn hyn ar lefel yr UE ar y pellteroedd gwahanu a ganiateir.

***Coedwigaeth***

2.7 Cytunodd y Gweinidog i gynnwys nodyn ar ddefnyddio arian Amcan 2 i ariannu prosiectau coedwigaeth yn ei adroddiad nesaf. Byddai gwneud cais am fwy o arian Amcan 1 ar gyfer *Cydcoed Cam 2* yn ei gwneud yn bosibl bwrw ymlaen â'r prosiect yn 2006. Polisi'r Comisiwn Coedwigaeth yw sicrhau mai coed llydanddail fydd o leiaf 10% o'r holl goed newydd a blennir. Roedd cynlluniau dylunio coedwigoedd yn sicrhau hyn a rhaid oedd i Fenter Coedwigoedd eu dilyn.

***Materion eraill - Apeliadau a hyrwyddo cig***

2.8 Mynegwyd pryder ynghylch yr oedi yn y broses apelio annibynnol yn enwedig os mai aneffeithlonrwydd gweinyddol oedd wrth wraidd hynny. Nododd y Pwyllgor i un o bob pump o'r penderfyniadau yng ngham 2 y broses apelio gael eu gwrthdroi am fod swyddogion wedi trin yr achosion mewn ffordd aneffeithlon. Roedd yr oedi rhwng cyhoeddi penderfyniadau'r panel a hysbysu'r achwynydd yn anorfod tra oedd y Gweinidog yn ystyried cyngor y panel.

2.9 Cytunodd y Gweinidog i ymchwilio i'r pryder a godwyd ynghylch y cymorth-dal sydd ar gael ar gyfer y cynllun labelu cig eidion ac i adrodd yn ôl.

**Camau i'w cymryd**

Eitem ar wahân i'w chynnwys ar yr agenda nesaf ar flaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer Adolygiad Canol Tymor y PAC. **Y Gweinidog, Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd**

Y Gweinidog i ysgrifennu at Rhodri Glyn Thomas i roi manylion gwaith Cyswllt Ffermio yn Sir Gaerfyrddin – **Y Gweinidog, Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio**

Y Gweinidog i roi'r manylion diweddaraf i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf ar ddatblygu modelau o ffermio cynaliadwy sy'n eco-gyfeillgar- **Y Gweinidog, Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio**

Y Gweinidog i adrodd yn ôl ar y cymorthdal sydd ar gael ar gyfer y cynllun labelu cig eidion- **Y Gweinidog, Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio**

Nodyn ar ddefnyddio arian Amcan 2 ar gyfer prosiectau coedwigaeth i'w gynnwys yn adroddiad nesaf y Gweinidog - **Y Gweinidog, Y Comisiwn Coedwigaeth**

**Eitem 3: Is-ddeddfwriaeth – Gorchymyn Gwahardd Cadw neu Ryddhau Pysgod Byw (Rhywogaethau Dynodedig) (Diwygio) (Cymru) 2002: ARD 13-02(p2)**

3.1 Argymhellodd y Pwyllgor gymeradwyo'r Gorchymyn drafft heb ei ddiwygio.

**Eitem 4: Amlen Genedlaethol Defaid o 2003 ymlaen: ARD 13-02(p3)**

4.1Byddai'r elfen ddatgysylltu yng nghynigion Adolygiad Canol Tymor y PAC yn golygu newid y drefn ar gyfer talu'r cymorthdaliadau uniongyrchol presennol, gan gynnwys yr amlen genedlaethol defaid. Ni ddisgwylir cael penderfyniad ar becyn yr Adolygiad Canol Tymor tan y Gwanwyn 2003 ac roedd yn anodd rhagweld beth fyddai'r penderfyniadau hynny. I osgoi peri ansicrwydd i ffermwyr o ran eu cynlluniau busnes, roedd yn fwriad gan y Gweinidog i barhau i ddefnyddio'r amlen yn 2003 yn unol â'r drefn bresennol (h.y. chwyddo'r premiwm sefydlog a delir i gynhyrchwyr defaid). Roedd rhai Aelodau o blaid y dull hwn o fynd ati ond roedd eraill o'r farn y dylid defnyddio'r amlen mewn ffordd fwy creadigol er mwyn gwella'r amgylchedd. Ni chafodd y dewis o barhau â'r drefn bresennol am flwyddyn arall ei hystyried yn y ddogfen ymgynghori ar ddefnyddio'r amlen gan i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben cyn cyhoeddi cynigion y Comisiwn Ewropeaidd yn yr Adolygiad Canol Tymor.

**Eitem 5: Ffermio i'r Dyfodol: ARD 13-02(p4)**

5.1 Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar nifer o gamau i'w cymryd:

- cam 1 - cadarnhaodd y Gweinidog y byddai, yn ogystal â chymryd y camau sy'n uniongyrchol o dan ei reolaeth, yn pwyso am reolaeth lymach ar gig sy'n cael ei fewnforio'n anghyfreithlon trwy, er enghraifft, gynnal archwiliadau trylwyrach yn Heathrow a Gatwick;
- cam gweithredu 16 - roedd yr oedi wrth ddatblygu cynllun nod barcud yn adlewyrchu'n rhannol yr angen i gydymffurfio â rheolau cymorth gwladol yr UE.
- cam gweithredu 21 - gallai Awdurdod Datblygu Cymru, wrth hyrwyddo ffeiriau bwyd, wneud mwy i apelio at y bobl leol yn hytrach na'r rheini sydd â diddordeb penodol neu broffesiynol mewn bwyd. Cytunodd y Gweinidog i ymchwilio i'r materion sy'n ymwneud â faint o gymorth a roddwyd i ffair fwyd y Fenni;
- cam gweithredu 29 - cytunodd y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad yr adolygiad a gynhaliwyd gan ELWa o'r angen am bobl â sgiliau yn y sector amaeth-fwyd;
- cam gweithredu 46 - cytunodd y Gweinidog i hysbysu'r Pwyllgor am y newidiadau sydd eisoes ar waith i'r cynllun Tir Gofal;
- cam gweithredu 48 - cytunodd y Gweinidog i gyflwyno papur i'r Pwyllgor cyn y Nadolig ar ddatblygu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymdeithasau rheoli tir comin. Awgrymwyd y dylid sefydlu gweithgor ar wahân i Gymru'n unig.

Y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad yr adolygiad a gynhaliwyd gan ELWa o'r angen am bobl â sgiliau yn y sector amaeth-fwyd - **Y Gweinidog, Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio**

Y Gweinidog i hysbysu'r Pwyllgor o'r newidiadau sydd eisoes ar waith i'r cynllun Tir Gofal - **Y Gweinidog, Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio**

Y Gweinidog i gyflwyno papur i'r Pwyllgor cyn y Nadolig ar ddatblygu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymdeithasau rheoli tir comin.- **Y Gweinidog, Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio**

Y Gweinidog i ymchwilio i'r pryderon ynghylch lefel y cymorth a roddwyd i ffair fwyd y Fenni - **Y Gweinidog, Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio**

**Eitem 6: Cyllideb ddrafft: ARD 13-02(p5)**

6.1 Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch y diffyg arian i roi argymhellion ymchwiliad Anderson ar waith ac i ddarparu arian wrth gefn i ariannu unrhyw bwerau ychwanegol a drosglwyddwyd i'r Cynulliad mewn perthynas â iechyd anifeiliaid. Bydd gofyn am ychwanegiad priodol at gyllideb y Cyllideb i ariannu'r trosglwyddiadau hyn yn hytrach na defnyddio adnoddau sy'n bodoli eisoes.

**Eitem 7: Ymchwiliad y Pwyllgor i Ffermio Organig: ARD 13-02(p6)**

7.1 Cadarnhaodd y Gweinidog ei fod yn fwriad ganddo gyflwyno cynllun stiwardiaeth organig, yn unol â'r hyn a argymhellwyd yn adroddiad y Pwyllgor, gan dalu'r un cyfraddau â'r rhai yn Lloegr. Ei obaith

oedd y gellid ymgorffori hyn yn y newidiadau a wneir eleni i'r Cynllun Datblygu Gwledig.

7.2 Nododd y Pwyllgor rai mân newidiadau i'r testun i'w cynnwys yn y drafft terfynol.

**Eitem 8: Ymchwiliad y Pwyllgor i Ddyfodol Cynlluniau Amaeth-amgylcheddol: ARD 13-02(p7)**

8.1 Gofynnodd y Pwyllgor am gael cynnwys y canlynol yn y rhaglen o gasglu tystiolaeth lafar;

- Y Comisiwn Coedwigaeth
- y rhai sy'n meddu ar brofiad ymarferol o weithredu cynlluniau amaeth-amgylcheddol;
- barn pobl yn y sector llaeth

**Eitem 9: Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf: ARD 12-02(min)**

9.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor - Hydref 2002**